



Ysgol Tryfan

Gorffennaf 12, 2016

Croeso i Flwyddyn 7 yn Ysgol Tryfan ym mis Medi, 2016

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol fel hyn hoffwn ddymuno'n dda i bob un ohonoch dros wyliau'r haf. Rwy'n sicr fod dyddiau olaf eich plentyn yn yr ysgol gynradd wedi bod yn gyfuniad rhyfedd o dristwch a chyffro a hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion cynradd am weithio'n galed a pharatoi'r disgyblion i drosglwyddo atom yn Ysgol Tryfan.

Yn gyntaf hoffwn eich hysbysu y byddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion ar **ddydd Llun y pumed o Fedi 2016**.

Mae cloch gyntaf y dydd yn canu am 8.55 ar gyfer y cyfnod cofrestru. Ar y dydd Llun cyntaf hwn fe ddisgwyliwn i ddisgyblion newydd blwyddyn 7 ddod atom i Neuadd yr ysgol i gyfarfod eu Pennaeth Blwyddyn a'u hathrawon bugeiliol.

Hyderaf fod pob un ohonoch wedi derbyn copi o Lawlyfr yr Ysgol yn gynharach eleni, sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi wrth baratoi i ddod atom. Gellir cael mynediad i gopi o'r Llawlyfr ar wefan yr ysgol - www.ysgoltryfan.org – ar y brif dudalen ar gyfer Rhieni. Hoffwn eich annog hefyd i ddilyn cyfrif Twitter yr ysgol (@ysgol_tryfan) er mwyn cael blas ar fywyd beunyddiol yr ysgol.

Hoffwn eich hysbysu hefyd fel rhieni na fydd pris cinio ysgol yn codi ym mis Medi gyda'r cinio llawn yn costio £2.40, prydu pasta yn costio £1.80 a'r tatws trwy'u crwyn/baguettes/paninis yn costio £1.50. Mae rhestr lawn o brisiau'r ffreutur ar gyfer Medi 2016 ar wefan yr ysgol.

Felly hoffwn ddymuno haf hir, diogel a heulog i chi eleni - ac edrychaf ymlaen yn arw at weld disgyblion newydd blwyddyn 7 yma yn Ysgol Tryfan ar y pumed o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

